

Canmoliaeth, Pryderon a Chwynion

Gwneud cwyn

Caiff unrhyw aelod o'r cyhoedd, gan gynnwys plentyn, a oedd naill ai'n derbyn neu a oedd â hawl i dderbyn gwasanaeth gan y cyngor wneud cwyn. Mae hwn hefyd yn berthnasol os yw'r sawl wedi dioddef oherwydd gweithredu amhriodol neu ddiffyg gweithredu gan y cyngor.

Gallwch hefyd wneud cwyn ar ran rhywun arall:

- Os yw'r unigolyn yn sâl neu wedi marw
- Os yw'r unigolyn yn blentyn
- Os nad oes gan yr unigolyn alluedd (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005)
- Os yw'r unigolyn wedi gofyn i rywun weithredu ar ei ran

Rydym bob amser yn anelu at safonau uchel, ond weithiau mae pethau'n mynd o chwith. Os ydych yn anhapus gyda'r gwasanaeth yr ydych wedi'i dderbyn, dywedwch wrthym. Yna, gallwn ddefnyddio'r adborth hwn i wella'n gwasanaethau.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio sut bydd y cyngor yn gweithio gyda'n cwsmeriaid i ddatrys cwynion. Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn dweud wrthym sut mae'n rhaid i ni wneud hyn.

Beth yw cwyn?

Mynegiant o anfonlonrwydd neu bryder:

- Wedi'i ysgrifennu neu ar lafar neu ei wneud drwy unrhyw ddull cyfathrebu arall
- Wedi'i wneud gan un neu fwy o aelodau'r cyhoedd (rhywun neu grŵp sy'n derbyn gwasanaeth neu gwrthodwyd gwasanaeth y mae ganddo hawl iddo gan y darparwr gwasanaeth)
- Am weithredu neu ddiffyg gweithredu darparwr gwasanaeth cyhoeddus neu safon y gwasanaeth a ddarperir
- Rhywbeth sy'n gofyn am ymateb

**Nid yw cwyn yn un o'r canlynol:**

- Cais cychwynnol am wasanaeth
- Adolygiad neu apêl ffurfiol yn erbyn penderfyniad
- Modd o geisio newid deddfwriaeth neu benderfyniad polisi sydd wedi'i 'wneud yn briodol'
- Modd i grwpiau/sefydliadau lobio geisio hyrwyddo achos
- Cwyn a wneir gan gorff neu unigolyn nad yw'n derbyn gwasanaeth gan y cyngor ac nad yw'n gweithredu ar ran cwsmer

Edrych ar ôl eich data personol

Fel arfer, bydd angen i'r sawl sy'n edrych ar eich cwyn weld y ffeiliau sydd gennym sy'n berthnasol i'ch cwyn. Os nad ydych eisiau i hyn ddigwydd, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym. Ni fyddwn yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth oni bai ei fod yn ofynnol o dan y gyfraith, ac ni fyddwn ond yn trosglwyddo cymaint ag sy'n angenrheidiol. Gellir gweld yr Hysbysiad Preifatrwydd [yma](#).



## Proses gwyno

Fel rheol, gallwn ond roi sylw i'ch pryderon os ydych yn dweud wrthym amdanynt o fewn **chwe mis (deuddeg mis** ar gyfer cwynion gofal cymdeithasol). Y rheswm am hyn yw oherwydd ei bod hi'n well ymchwilio i'ch cwynion pan fydd y materion dal yn newydd ym meddyliau pawb. Beth bynnag, ni fyddwn yn ystyried unrhyw bryderon am faterion a ddigwyddodd fwy na thair blynedd yn ôl.

Gellir gwneud cwyn yn ysgrifenedig, ar lafar, neu drwy ddefnyddio ein [Ffurflen Pryderon/Cwynion](#) ar-lein neu drwy e-bost [corporatecomplaints@pembrokeshire.gov.uk](mailto:corporatecomplaints@pembrokeshire.gov.uk).

Mae **dau gam** i'r broses gwyno.

## Cam 1 – Anffurfiol

I wneud cwyn anffurfiol dylech gysylltu naill ai â'r aelod o staff rydych wedi bod yn delio ag ef, neu'r swyddog cyswllt Cwynion perthnasol. Gellir gweld manylion y swyddogion hyn ar dudalen 6-8. Os ydych chi'n dal i fod yn ansicr â phwy i gysylltu, yna ffoniwch ein Canolfan Gyswllt ar (01437) 764551, a fydd yn hapus i helpu.

Cydnabyddir cwynion corfforaethol cyn pen **5 diwrnod gwaith**. Yn dilyn hyn, dylech ddisgwyl derbyn ymateb cyn pen **10 diwrnod gwaith**.

Ar gyfer cwynion Gofal Cymdeithasol, cydnabyddir cyn pen **2 ddiwrnod gwaith**, mewn ymgais i ddatrys materion, byddwn yn cynnig trafod eich cwyn gyda chi (naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn) bydd y drafodaeth hon yn digwydd cyn pen **10 diwrnod gwaith** ar ôl y gydnabyddiaeth. Yn dilyn y drafodaeth, byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn **5 diwrnod gwaith** gydag ymateb.

Gellir datrys y rhan fwyaf o gwynion yn gyflym ar y cam hwn. Fodd bynnag, os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb, gallwch ofyn i'r cwyn gael ei symud ymlaen i **Gam 2**.

## Cam 2 – Ffurfiol

I wneud cwyn ffurfiol, bydd angen i chi gysylltu â'r swyddog cyswllt perthnasol ar gyfer cwynion.

Cydnabyddir cwynion corfforaethol cyn pen **5 diwrnod gwaith**. Yna dylech chi ddisgwyl derbyn ymateb cyn pen **20 diwrnod gwaith**.

Ar gyfer cwynion Gofal Cymdeithasol, cydnabyddir eich cwyn cyn pen **2 ddiwrnod gwaith**. Yna dylech chi ddisgwyl derbyn ymateb i'ch cwyn o fewn **25 diwrnod gwaith**.

Bydd y swyddog cyswllt cwynion dynodedig yn llunio cofnod ysgrifenedig ffurfiol o'ch cwyn a'r canlyniad yr hoffech ei gyflawni. Yna, penodir ymchwilydd i ymchwilio i'ch cwyn; byddwn yn rhoi gwybod i chi pwy yw hwn.

Noder na fydd yr ymchwiliad yn dechrau nes eich bod chi, yr achwynydd a'r ymchwilydd/cyngor yn cytuno ar gwmpas y gŵyn.

Yna bydd y cyngor yn rhoi ymateb ysgrifenedig i'ch cwyn. Bydd yr ymateb hwn yn cynnwys y canlynol:

- Canlyniad yr ymchwiliad
- Unrhyw gamau pellach y bwriadwn eu cymryd i unioni pethau
- Unrhyw welliannau i'r gwasanaeth y byddwn yn eu rhoi ar waith



**A allai rhywun fy helpu i geisio datrys fy nghwyn?**

Mae nifer o wasanaethau eirioli i helpu plant ac oedolion i leisio'u barn.

Os oes arnoch angen y cymorth hwn, rhowch wybod i ni a byddwn yn hapus i'ch roi mewn cysylltiad ag eiriolydd os ydych yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth.

**Nid wyf yn siŵr at bwy y mae angen i mi gyfeirio fy nghwyn gorfforaethol?**

Efallai y bydd cwyn gennych am wasanaeth yr ydym wedi'i drefnu ar eich rhan gyda darparwr arall, megis contractiwr. Bydd gan bob sefydliad ei broses gwyno ei hun a byddwn yn hapus i'ch helpu i wneud cwyn am unrhyw un o'r gwasanaethau hyn.

**Nid wyf yn siŵr at bwy y mae angen i mi gyfeirio fy nghwyn gofal cymdeithasol?**

Efallai y bydd cwyn gennych am wasanaeth yr ydym wedi'i drefnu ar eich rhan gyda darparwr arall, megis cartref gofal preswyl, asiantaeth gofal cartref neu wasanaeth dydd. Bydd gan bob sefydliad ei broses gwyno ei hun a byddwn yn hapus i'ch helpu i wneud cwyn am unrhyw un o'r gwasanaethau hyn.

Os yw eich cwyn yn ymwneud â rhywbeth yr ydym wedi'i ddarparu ar y cyd â sefydliad arall, e.e. pecyn gofal gan staff iechyd a gofal cymdeithasol, byddwn yn edrych ar eich cwyn gyda'n gilydd ac fel arfer yn anfon un ymateb atoch.

**Ble ydw i'n mynd os nad ydw i'n fodlon ar ymateb y cyngor i'm cwyn ffurfiol?**

Mae'r ombwdsmon fel arfer yn disgwyl i chi ddod â'ch pryderon i'n sylw yn gyntaf a rhoi'r cyfle i ni unioni pethau.

Os ydych yn anfodlon ar ymateb y cyngor i'ch cwyn, gallwch ofyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio iddi.

Mae manylion Cyswllt i'w gweld isod:

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**  
1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

E-bost: [holwch@ombwdsmon.cymru](mailto:holwch@ombwdsmon.cymru)

Gwefan: [www.ombwdsmon.cymru](http://www.ombwdsmon.cymru)

**Beth os oes gennyf ganmoliaeth neu sylw?**

Os ydych yn fodlon am rywbeth yr ydych yn teimlo ein bod wedi'i wneud yn dda neu os oes gwasanaeth yr ydych yn hapus ag ef, neu os oes gennych awgrym ar sut y gallai'r cyngor wella, rhowch wybod i ni drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:

- Defnyddio'r ffurflen ar-lein: [Adborth Cwsmeriaid - Canmoliaeth / Sylw](#)
- Anfon e-bost: [compliments@pembrokeshire.gov.uk](mailto:compliments@pembrokeshire.gov.uk)
- Ysgrifennu at: **Canmoliaethau a Sylwadau**, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 1TP



**Cwynion Gofal Cymdeithasol: Alla i wneud cwyn at rywun arall?**

**Arolygiaeth Gofal Cymru** sy'n rheoleiddio'r holl wasanaethau gofal yng Nghymru. Gallwch gwyno'n uniongyrchol ati am wasanaeth gofal a dderbynnir gan gartrefi gofal ac asiantaethau gofal cartref, yn ogystal â gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor.

**Cyfeiriad:** Arolygiaeth Gofal Cymru, Swyddfa Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ

**Ffôn:** 0300 7900 126

**Ffacs:** 0872 437 7301

**E-bost:** [AGC@llyw.cymru](mailto:AGC@llyw.cymru)

**Website:** <https://arolygiaethgofal.cymru>

Mae **Gofal Cymdeithasol Cymru** yn rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol ac mae ganddo'r pŵer i ymchwilio i honiadau o gamymddwyn.

**Cyfeiriad:** Gofal Cymdeithasol Cymru, Tŷ South Gate, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW

**E-bost:** [info@ccwales.org.uk](mailto:info@ccwales.org.uk)

**Gwefan:** <https://gofalcymdeithasol.cymru>

Gall **Comisiynydd Plant Cymru** gefnogi a chynghori plant a phobl ifanc ar eu hawliau.

**Cyfeiriad:** Comisiynydd Plant Cymru, Tŷ Llewellyn, Parc Busnes Glan Yr Harbwr, Heol Yr Harbwr, Port Talbot, SA13 1SB

**Ffôn:** 01792 765 600

**Rhadffôn:** 0808 801 1000

**E-bost:** [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk)

**Gwefan:** <https://www.complantcymru.org.uk/cysyllta/>

Mae **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** yn gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ledled Cymru. Mae'n rhoi cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn ac yn gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed ac y gweithredir arnynt.

**Cyfeiriad:** Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Tre-biwt, Caerdydd, CF10 5FL

**Ffôn:** 03442 640 670 neu 02920 445030

**E-bost:** [gofyn@olderpeoplewales.com](mailto:gofyn@olderpeoplewales.com)

**Gwefan:** <https://www.olderpeoplewales.com/cy/home.aspx>



**Cyngor a chymorth arall sydd ar gael i achwynwyr**

Gall y sefydliadau canlynol eich cynorthwyo wrth wneud cwyn.

**Eiriolaeth i blant a phobl Ifanc**

**TGP Cymru**

**Cyfeiriad:** Byngalo Min-y-Mor, Gerddi Wellington, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0BQ

**Ffôn:** 0808 168 2599

**E-bost:**

[midandwestwales@tgpcymru.org.uk](mailto:midandwestwales@tgpcymru.org.uk)

**Gwefan:** <https://www.tgpcymru.org.uk>

**Oedolion ag anableddau dysgu**

**Pobl yn Gyntaf Sir Benfro**

**Cyfeiriad:** Portcullis House, Old Hakin Road, Hwlfordd, SA61 1XE

**Ffôn:** 01437 762 524

**E-bost:**

[advocate@pembrokeshirepeople1st.org.uk](mailto:advocate@pembrokeshirepeople1st.org.uk)

**Gwefan:** <https://www.pembrokeshirepeople1st.org.uk/>

**Gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc)**

**Pembrokeshire Association of Voluntary Services (PAVS)**

**Cyfeiriad:** 36/38 High Street, Hwlfordd, SA61 2DA

**Ffôn:** 01437 769 422

**E-bost:** [enquiries@pavs.org.uk](mailto:enquiries@pavs.org.uk)

**Gwefan:** <https://www.pavs.org.uk>

**Plant ag Anableddau Dysgu**

**Gweithredu dros Blant**

**Cyfeiriad:** Penfynnon, Hawthorn Rise, Hwlfordd, SA61 2AX

**Ffôn:** 01437 761 330

**Gwefan:** <https://afwestwales.co.uk>

**Cyngor cyffredinol**

**Cyngor ar Bopeth Sir Benfro**

**Cyfeiriad:** 36-38 High Street, Hwlfordd, SA61 2DA

neu, 38 Meyrick Street, Doc Penfro, SA72 6UT

**Ffôn:** Hwlfordd 01437 767 936 / Doc Penfro 01646 623 104

**Gwefan:** <https://www.pembscab.org>

**Eiriolaeth gyffredinol**

**Dewis**

**Cyfeiriad:** Suite 3B Cedar Court, Parc Busnes Havens Head, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 3LS

**Ffôn:** 01646 629 123

**Gwefan:** <https://www.dewiscil.org.uk>

**Iechyd meddwl**

**Eiriolaeth Gorllewin Cymru**

**Cyfeiriad:** 36-38 High Street, Hwlfordd, SA61 2DA

**Ffôn:** 01437 762 935

**Gwefan:** <https://advocacywestwales.org.uk>

**Pobl hŷn**

**Age Cymru**

**Cyfeiriad:** Llawr Gwaelod, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd, CF24 5TD

**Ffôn:** 0300 303 44 98

**E-bost:** [advice@agecymru.org.uk](mailto:advice@agecymru.org.uk)

**Gwefan:** <https://www.ageuk.org.uk>



Swyddogion Cyswllt Cwynion

<p><b>Cynnal a Chadw Adeiladau</b></p>	<p>Ar gyfer cwynion yn ymwneud ag atgyweirio tai cyngor, gwaith cynnal a chadw ar adeiladau, goleuadau stryd. Eich cyswlltiadau yw:</p> <p><b>Stuart Uzmez, Goruchwyliwr Ardal Cynorthwy-ydd Atgyweirio Ymatebol</b> Ffôn: 01437 776279 E-bost: <a href="mailto:stuart.uzmez@pembrokeshire.gov.uk">stuart.uzmez@pembrokeshire.gov.uk</a></p> <p><b>Phil Horne, Swyddog Cynnal a Chadw Ardal</b> Ffôn: 01437 776650 E-bost: <a href="mailto:Phil.Horne@pembrokeshire.gov.uk">Phil.Horne@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Unedau Corfforaethol a'r Gymraeg</b></p>	<p>Ar gyfer cwynion ynghylch Adnoddau Dynol, polisi, cyfreithiol, etholiadau a'r Gymraeg. Eich cyswllt yw:</p> <p><b>Viola Traynor, Swyddog Cymorth Polisi Corfforaetho</b> Ffôn: 01437 775856 E-bost: <a href="mailto:Viola.Traynor@pembrokeshire.gov.uk">Viola.Traynor@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Gwasanaethau Diwylliannol</b></p>	<p>Am gwynion ynglŷn â llyfrgelloedd, amgueddfeydd, yr archifdy a'r celfyddydau. Eich cyswllt yw:</p> <p><b>James Thornley, Rheolwr T G Ch Gwasanaethau Diwylliannol</b> Ffôn: 01437 776083 E-bost: <a href="mailto:james.thornley@pembrokeshire.gov.uk">james.thornley@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Datblygu ac Adfywio Economaidd</b></p>	<p>Ar gyfer cwynion ynghylch datblygu economaidd, prosiectau adfywio ac adfywio cymunedol. Eich cyswllt yw:</p> <p><b>Kirstie Thomas, Gweinyddwr Prosiect Adfywio</b> Ffôn: 01437 775920 E-bost: <a href="mailto:kirstie.thomas@pembrokeshire.gov.uk">kirstie.thomas@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Addysg</b></p>	<p>Ar gyfer cwynion ynghylch derbyniadau ysgolion, addysg a datganiadau anghenion arbennig, y gwasanaeth cerdd, gwasanaethau ieuencid, dysgu i oedolion, datblygu chwaraeon, addysg a chwarae'r blynyddoedd cynnar, gwasanaethau arlwy a gwobrau myfyrwr. Eich cyswllt yw:</p> <p><b>David Thompson, Rheolwr y Rhaglen Polisi a Gwella</b> Ffôn: 01437 775288 E-bost: <a href="mailto:David.Thompson@pembrokeshire.gov.uk">David.Thompson@pembrokeshire.gov.uk</a></p> <p><i>Noder: Mae'n rhaid i faterion sydd a wnelont ag ysgolion ddilyn Gweithdrefn Gŵynion Cyffredinol Ysgolion.</i></p>
<p><b>Yr Amgylchedd ac Argyfyngau Sifil</b></p>	<p>Ar gyfer cwynion ynghylch gwastraff (gan gynnwys gwastraff masnach), ailgylchu a safleoedd amwynder dinesig. Eich cyswllt yw:</p> <p><b>Caroline Hall, Swyddog Prosiect Gwastraff</b> Ffôn: 01437 776497 / 01437 775901 E-bost: <a href="mailto:envirocomplaints@pembrokeshire.gov.uk">envirocomplaints@pembrokeshire.gov.uk</a></p> <p>Ar gyfer cwynion ynghylch glanhau strydoedd, casglu gwastraff, parciau, gerddi a meysydd chwarae, a cherbydau wedi'u gadael. Eich cyswllt yw:</p> <p><b>Neil McCarthy, Rheolwr Depo</b> Ffôn: 01437 775927 E-bost: <a href="mailto:Neil.McCarthy@pembrokeshire.gov.uk">Neil.McCarthy@pembrokeshire.gov.uk</a></p> <p>Ar gyfer cwynion ynghylch toiledau cyhoeddus. Eich cyswllt yw:</p> <p><b>Katie Daly, Rheolwr Busnes Strategol</b> Ffôn: 01437 775945 E-bost: <a href="mailto:Katie.Daly@pembrokeshire.gov.uk">Katie.Daly@pembrokeshire.gov.uk</a></p>



<p><b>Yr Amgylchedd ac Argyfyngau Sifil</b></p>	<p>Ar gyfer cwynion ynghylch yr amlogfa. Eich cyswllt yw:  <b>James Allen, Cofrestrydd Arolygol Cynorthwyol</b>                  Ffôn: 01834 860622 E-bost: <a href="mailto:James.Allen@pembrokeshire.gov.uk">James.Allen@pembrokeshire.gov.uk</a></p> <p>Ar gyfer cwynion ynghylch cynllunio at argyfyngau. Eich cyswllt yw:  <b>Steve Jones, Cydlynnydd Argyfyngau Sifil Fforymau Lleol Cymru Gydnerth</b>                  Ffôn: 01437 775661 E-bost: <a href="mailto:Steve.Jones@pembrokeshire.gov.uk">Steve.Jones@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Rhyddid Gwybodaeth</b></p>	<p>Am faterion ynglŷn â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Eich cyswllt yw:  <b>Jennifer Brown, Uwch Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth</b>                  Ffôn: 01437 776684 E-bost: <a href="mailto:jennifer.brown@pembrokeshire.gov.uk">jennifer.brown@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Comisiynu Tai</b></p>	<p>Am gwynion ynglŷn â dyrannu tai cyngor, tai, tai y sector preifat a grantiau, rheoli tenantiaeth, tai gwarchod, digartrefedd ac opsiynau tai. Eich cyswlltiadau yw:  <b>Katie Mullins, Bethan Howell neu Robyn Munn, Swyddogau Cyswllt Cwsmeriaid (Tai)</b>                  Ffôn: 01437 776556 / 07867 550411 / 01437 775209                  E-bost: <a href="mailto:HousingCLO@pembrokeshire.gov.uk">HousingCLO@pembrokeshire.gov.uk</a>  <i>Ar gyfer atgyweiriadau tai cyngor, gweler Cynnal a Chadw Adeiladau</i></p>
<p><b>Seilwaith</b></p>	<p>Ar gyfer cwynion ynghylch y priffyrdd, carthffosydd, cludiant, meysydd parcio, diogelwch ar y ffyrdd, diogelu'r arfordir, pensaernïaeth, ynni a chynaliadwyedd, peirianeg, diogelwch cymunedol, Canolfan Arloesi'r Bont a Gwaith yn yr Arfaeth. Eich cysylltiadau yw:  <b>Shaun Griffiths, Rheolwr Systemau Corfforaethol a Diogelwch</b>                  Ffôn: 01437 775077 E-bost: <a href="mailto:shaun.griffiths@pembrokeshire.gov.uk">shaun.griffiths@pembrokeshire.gov.uk</a>  <b>Jane Williams, Swyddog Data a Systemau</b>                  Ffôn: 01437 775419 E-bost: <a href="mailto:jane.williams@pembrokeshire.gov.uk">jane.williams@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Gwasanaethau Hamdden</b></p>	<p>Ar gyfer cwynion ynghylch twristiaeth, canolfannau hamdden, datblygu twristiaeth, porthladdoedd a thraethau. Eich cyswllt yw:  <b>Gary Nicholas, Swyddog Gwasanaethau Hamdden</b>                  Ffôn: 01437 776005 E-bost: <a href="mailto:gary.nicholas@pembrokeshire.gov.uk">gary.nicholas@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Swyddog Monitro</b></p>	<p>O ran cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch toriad honedig o'r Cod Ymddygiad gan Gynghorydd, dylid anfon copi o'r gŵyn i'r Swyddog Arolygu hefyd. Bydd cwynion sy'n cynnwys honiad o doriad o unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol gan awdurdod hefyd yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Arolygu gan y swyddog cyswllt cwynion perthnasol.  <b>Rhian Young, Swyddog Monitro Dros Dro</b>                  Ffôn: 01437 775595 E-bost: <a href="mailto:rhian.young@pembrokeshire.gov.uk">rhian.young@pembrokeshire.gov.uk</a></p>



<p><b>Cwynion Ombwdsmon</b></p>	<p>Ar gyfer cwynion i Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Sefydliad annibynnol yw Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i chwilio i mewn i gwynion o gamweinyddiad (arferion drwg) yn erbyn gwasanaethau cyhoeddus. Fel arfer, bydd Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn disgwyl bod eich cwyn wedi cael ei hystyried drwy Bolisi Cwynion y Cyngor yn gyntaf cyn dechrau unrhyw ymchwiliad.</p> <p><b>Amanda Davies, Swyddog Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol</b></p> <p>Ffôn: 01437 775503      E-bost: <a href="mailto:Amanda.Davies@pembrokeshire.gov.uk">Amanda.Davies@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Cynllunio</b></p>	<p>Am gwynion ynglŷn â chynllunio, Y Cynllun Datblygu, cadwraeth, a rheoli adeiladu. Eich cyswlltiadau yw:</p> <p><b>Lauren Cotterell, Ysgrifennydd Adrannol</b></p> <p>Ffôn: 01437 775324      E-bost: <a href="mailto:lauren.cotterell@pembrokeshire.gov.uk">lauren.cotterell@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Caffael a Gwasanaethau Cwsmeriaid</b></p>	<p>Ar gyfer cwynion ynghylch budd-daliadau, y dreth gyngor, rhent tai cyngor, ardrethi busnes, cyflogres a thaliadau credydwyr, cyfleusterau (gan gynnwys meysydd parcio), canolfannau cyswllt cwsmeriaid, technoleg gwybodaeth a materion Ewropeaidd. Eich cyswllt yw:</p> <p><b>Duncan Betteley, Arweinydd Tîm Trawsnewid Cylch Cynllunio'r Gyllideb</b></p> <p>Ffôn: 01437 775211      E-bost: <a href="mailto:Duncan.Betteley@pembrokeshire.gov.uk">Duncan.Betteley@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Rheoli Eiddo ac Asedion</b></p>	<p>Ar gyfer cwynion am reoli ac adolygu eiddo, ffermydd sirol, marchnadoedd, Maes Awyr Hwlfordd, unedau diwydiannol a Harbyrau Dinbych-y-pysgod ac Abergwaun. Eich cyswllt yw:</p> <p><b>Helen McLeod-Baikie, Rheolwr Asedau Strategol</b></p> <p>Ffôn: 01437 775874      E-bost: <a href="mailto:helen.mcleod-baikie@pembrokeshire.gov.uk">helen.mcleod-baikie@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Diogelu'r Cyhoedd</b></p>	<p>Ar gyfer cwynion ynghylch iechyd yr amgylchedd , diogelwch/safonau bwyd, trwyddedu, rheoli llygredd, rheoli plâu, rheoli cŵn, iechyd a lles anifeiliaid, safonau masnach, diogelwch cymunedol a thai'r sector preifat. Eich cyswllt yw:</p> <p><b>Jemma Price-Lewis, Rheolwr Business</b></p> <p>Ffôn: 01437 776203      E-bost: <a href="mailto:jemma.price-lewis@pembrokeshire.gov.uk">jemma.price-lewis@pembrokeshire.gov.uk</a></p>
<p><b>Gwasanaethau Cymdeithasol</b></p>	<p>Am gwynion ynglŷn â gwasanaethau i'r henoed, plant a theuluoedd, iechyd meddwl, anabledau corfforol, anabledau dysgu, maethu a mabwysiadu. Eich cyswlltiadau yw:</p> <p><b>Richard Williams neu Amanda Davies, Swyddogion Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol</b></p> <p>Ffôn: 01437 776208 neu 01437 775503 E-bost: <a href="mailto:SocialCareComplaints@pembrokeshire.gov.uk">SocialCareComplaints@pembrokeshire.gov.uk</a></p>

